# CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU

## COFNODION (LEG(2)-08-2006):

### Dyddiad y Cyfarfod: 7 Mawrth 2006

### Amser y Cyfarfod: 9:30am

### Lleoliad y Cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

### Aelodau Cynulliad yn Bresennol:

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| David Melding (Cadeirydd) | Canol De Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Brynle Williams | Gogledd Cymru |

### Swyddogion

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gwyn Griffiths | Cynghorydd Cyfreithiol |
| Joanest Jackson | Cynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |

## Gwasanaeth y Pwyllgor

| Enw | Teitl Swydd |
|---|---|
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Richard Miltiadis | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Janice Gregory

## Eitem 2: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol – LEG(2)-07-2006

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod diwethaf, ar yr amod y câi un peth ei ychwanegu: Gofynnodd Christine Gwyther am i'w hymddiheuriadau gael eu cofnodi'n ffurfiol, i ddarllen fel a ganlyn: "...Eitem 1: Ymddiheuriadau am absenoldeb: Eleanor Burnham, Rosemary Butler, Jeff Cuthbert, Christine Gwyther, Ann Jones…"

## Eitem 3: Adroddiad y Cadeirydd

3.1 Gan nad oedd unrhyw bwyntiau i'w hadrodd, awgrymodd y Cadeirydd y dylid symud ymlaen i drafod deddfwriaeth.

## Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i'w Hystyried

### 4.1 LC1233 - Gorchymyn Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006

Cyflwynodd Ms Jackson yr adroddiad i'r Pwyllgor.

4.2 Cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol.

### 4.3 LC1239 – Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2006

Cyflwynodd Ms Jackson yr adroddiad i'r Pwyllgor.

4.4 Gofynnwyd a oedd geiriad trydedd brawddeg ail baragraff yr adroddiad Saesneg drafft yn anghywir. Cytunodd Ms Jackson a dywedodd y dylid rhoi "of" yn lle "if" er mwyn i'r frawddeg ddarllen fel a ganlyn: "On the assumption that the intention of the Regulations…". O wneud y cywiriad hwnnw, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiad yn niwyg y drafft a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y

Cynghorwyr Cyfreithiol.

4.5 O ran yr Offerynnau Statudol a ganlyn, cytunodd yr Aelodau y dylid llunio'r adroddiadau yn niwyg y drafftiau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorwyr Cyfreithiol:

**LC1240 – Rheoliadau'r Cynllun Addysg Sengl (Cymru) 2006**

**LC1241 – Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 9 a Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2006**

**LC1242 – Gorchymyn Lewcosis Buchol Ensootig (Cymru) 2006**

**LC1243 – Gorchymyn Brwselosis (Cymru) 2006**

## Eitem 5: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

5.1 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn Ystafell Bwyllgora 3 ar 14 Mawrth 2006.